# EVANS, HUGH (1790 - 1853), milfeddyg a cherddor

**Enw:** Hugh Evans
**Dyddiad geni:** 1790
**Dyddiad marw:** 1853
**Rhiant:** Gwen Evans
**Rhiant:** Evan Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** milfeddyg a cherddor
**Maes gweithgaredd:** Cerddoriaeth; Natur ac Amaethyddiaeth; Perfformio
**Awdur:** Robert David Griffith

Ganwyd yn 1790, mab Evan a Gwen Evans, Pencraig Fawr, Betws Gwerfyl Goch, Sir Feirionnydd. Yr oedd yn gerddor da, ac yn chwaraewr medrus ar y sielo. Ef hefyd oedd arweinydd y canu yn eglwys Betws Gwerfyl Goch. Yn 1837 sefydlwyd ' Cymdeithas Gantorawl Cerrig-y-drudion ' ac o dan ei nawdd cyhoeddodd Hugh Evans *Holwyddoreg ar Egwyddorion Peroriaeth*, yn rhannau dau swllt yr un, ar gyfer cyfarfodydd chwarterol y gymdeithas. Trwy'r *Holwyddoreg* lledaenwyd gwybodaeth gerddorol i ran helaeth o'r wlad. Bu farw 20 Ionawr 1853, ym Mhenyrallt, plwyf Llangwm Betws Gwerfyl Goch.

## Awdur

**Robert David Griffith**, (1877 - 1958)

## Ffynonellau


M. O. Jones, *Bywgraffiaeth Cerddorion Cymreig* (1890)

Edward Jones, *Rhestr gyda nodiadau byrion, o Enwogion Cymreig o 1700 i 1900* (1908)

Brown a Stratton, *British Musical Biography: a dictionary of musical artists, authors and composers, born in Britain and its colonies* (Birmingham 1897)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733189

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu